The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Enw'r prosiect** | Efyrnwy i Frankton |
| **Cyfeirnod y ffeil** | Dd/B |
| **Statws** | **Terfynol** |
| **Awdur** | Yr Arolygiaeth Gynllunio |
| **Dyddiad** | 18 Mai 2023 |
| **Cyfarfod gyda** | Bute Energy a Green GEN Cymru |
| **Lleoliad** | Microsoft Teams |
| **Amcanion y cyfarfod** | Cyfarfod Cychwynnol |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol |

## Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd, a'r cyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008. Ni fyddai unrhyw gyngor a roddid o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r ymgeiswyr (neu eraill) ddibynnu arno.

Esboniodd yr Arolygiaeth y gallai fod oedi o hyd at chwe mis cyn cyhoeddi'r nodyn cyfarfod, neu hyd nes bod cais cwmpasu ffurfiol wedi cael ei gyflwyno (os bydd Ymgeisydd yn gofyn amdano am resymau masnachol).

### Y Datblygiad Arfaethedig

Cyflwynodd yr Ymgeisydd Bute Energy a Green Gen Cymru ac esboniodd nad oes rhwydwaith trydan yng Nghanolbarth Cymru ar hyn o bryd sy'n gallu ymdopi â datblygiadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd arfaethedig. Y cynnig yw datblygu llwybr ar gyfer cysylltiad trydan 132kV newydd o Barc Ynni arfaethedig Llyn Lort, a pharciau ynni arfaethedig eraill yng Nghanolbarth Cymru, â'r rhwydwaith trawsyrru 400kV presennol, ar bwynt ger Frankton Isaf, Swydd Amwythig yng ngorllewin canolbarth Lloegr. Mae Bute Energy a Green Gen Cymru yn gwmnïau ar wahân, ond maen nhw'n bwriadu cyflawni Parciau Ynni a llinellau Grid erbyn diwedd 2028. Trafododd yr Ymgeisydd ddyluniad y grid, gan ddweud ei fod yn bwriadu defnyddio peilonau dellt dur 132kV, 27m yn nodweddiadol, y gellid eu sgrinio gan dopograffeg a llystyfiant o bosibl. Roedd yr Ymgeisydd wedi ystyried dyluniadau eraill, fel opsiynau polion pren, ond penderfynwyd na fyddai hyn yn gallu cyflawni'r capasiti gofynnol ar lwybrau unigol, felly byddai angen llawer o linellau uwchben. Yn ei gyfrifiadau, wrth ystyried opsiynau polion pren, cadarnhaodd yr Ymgeisydd y byddai angen tua phedair gwaith yn fwy o bolion o gymharu â pheilonau dellt dur i gyflawni'r capasiti gofynnol.

### Cwmpasu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA)



Classification L2 - Business Data

Rhoddodd yr Ymgeisydd wybod i'r Arolygiaeth ei fod yn bwriadu cyflwyno cais Cwmpasu yn ystod chwarter cyntaf 2024.

**Cynllun Cydsynio**

Trafododd yr Ymgeisydd yr ymagwedd at gydsyniad, gan amlinellu bod angen Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) ar gyfer llinell uwchben 132kV o'r pen selio cebl yng Nghymru, i is-orsaf drawsyrru National Grid Electricity Transmission (NGET) yn Lloegr (tua 45km).

Nid yw prosiectau ynni adnewyddadwy arfaethedig Bute Energy yn rhan o'r prosiect hwn a byddant yn dilyn cyfundrefn gydsynio Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS).

Bydd Datblygiad Cysylltiedig yn cynnwys is-orsaf gasglu (switsio) yng Nghymru, a allai gasglu ynni o barciau ynni presennol a newydd ar y tir, a chebl tanddaear o'r is-orsaf i gyfadeilad pen selio cebl yng Nghymru. Byddai'r ceblau tanddaear yn cludo'r trydan trwy'r parc ynni arfaethedig.

**Ymgynghoriad Statudol**

Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu dechrau ymgynghoriad adran 42 ac adran 47 yn hwyr yn 2024. Cadarnhaodd hefyd ei fod yn dymuno osgoi ymgynghori ar ormod o geisiadau (DCO/DNS) ar yr un pryd.

Rhannodd yr Ymgeisydd fod y cais DNS yn debygol o gael ei gyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) ar yr un pryd â'r cais Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP). Holodd yr Arolygiaeth ynghylch bwriadau'r Ymgeisydd o ran cyfieithu i'r Gymraeg. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y bydd pob elfen o'r cais yn ddwyieithog, heblaw am y dogfennau technegol a fydd yn Saesneg yn bennaf. Bydd fersiynau Cymraeg o'r dogfennau hyn ar gael ar gais. Mae'n debygol y bydd y dogfennau hyn yn cynnwys y Crynodeb Annhechnegol o'r Datganiad Amgylcheddol, gwefannau a chylchlythyrau. Yn ogystal, rhannodd yr Ymgeisydd y bydd swyddogion sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn cael eu defnyddio drwy gydol y broses DCO.

**Ymgynghoriad Anstatudol**

Rhannodd yr Ymgeisydd y byddai'n dechrau ymgynghoriad anstatudol ynglŷn â choridorau llwybrau ym mis Medi 2023. Ymgysylltir â phartïon trwy lythyrau, galwadau ffôn ac ymweliadau personol â thirfeddianwyr ar hyd coridor arfaethedig llwybr y cebl. Cynhelir ymweliadau gan syrfewyr ac asiantiaid o WSP, ynghyd â Bute Energy, i gadarnhau perchnogaeth, meddiannaeth a, lle y bo'r angen, trafod telerau i ganiatáu i arolygon amgylcheddol anymwthiol gael eu cynnal ar y tir yr effeithir arno. Trafododd yr Ymgeisydd ymgysylltu â thirfeddianwyr. Bwriedir cyflawni'r holl drefniadau mynediad ar sail wirfoddol, gan ddefnyddio a172 Deddf Tai a Chynllunio 2016 i sicrhau y ceir digon o ddata arolwg. Nid yw'r Ymgeisydd yn bwriadu defnyddio a52 Deddf Cynllunio 2008.

**Unrhyw Fater Arall**

Holodd yr Arolygiaeth ynghylch ymgysylltiad yr Ymgeisydd â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae'r Ymgeisydd wedi bod yn trafod gyda CNC ac eisiau cynnig cymorth, gan fod

sawl cynnig yn cael ei hyrwyddo y tu allan i'w ofynion statudol. Mae'r Ymgeisydd eisiau ymgysylltu'n gynnar, er mwyn cael barn CNC cyn gynted â phosibl. Holodd yr Ymgeisydd ynghylch sefyllfa debyg â Chyngor Sir Powys, a chadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod yn ei gynorthwyo lle y bo'n bosibl.

Mae'r Ymgeisydd wedi cyflwyno cais i Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (OFGEM) am drwydded Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (DNO) a ddisgwylir ym mis Gorffennaf/ Awst 2023.

Classification L2 - Business Data